



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.llyw.cymru

Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol



Canllawiau

Dogfen ganllawiau: rhif 193/2015

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2015

Yn disodli dogfen ganllawiau: rhif 126/2014

Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol

Cynulleidfa	Consortia rhanbarthol, prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; cyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.
Trosolwg	Mae'r Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer consortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion yn ogystal â swyddogaethau perthnasol pob haen (ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol) yn y system addysg. Diweddarwyd y ddogfen hon ym mis Hydref 2015.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Y Gyfarwyddiaeth Safonau Ysgolion a Chyflawni Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6050 e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/addysgasiau

Cynnwys

Cyflwyniad	3
1. Cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion ar gyfer gwella ysgolion yn effeithiol	5
Gweledigaeth a diben	5
Model ac egwyddorion allweddol ar gyfer gwella ysgolion	5
Cam 1: Asesu ysgolion	6
Cam 2: Cynllunio ar gyfer gwella	7
Cam 3: Cyflawni gwelliannau	7
Cam 4: Adolygu effaith	8
Rôl y consortia rhanbarthol i weithredu'r model hwn	8
2. Cwmpas y consortia rhanbarthol	10
Cwmpas gwasanaethau'r consortia rhanbarthol	10
3. Cyflawni priod swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol	12
Rôl y consortia rhanbarthol	12
Cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol	17
4. Llywodraethu ac atebolrwydd	19
Cydbwyllgorau	19
Y bwrdd cynghori	20
Adolygu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd	21
Cynllun busnes cyffredinol y consortiwm rhanbarthol	21
Cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol	22
Craffu a chyswllt rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol	23
Atebolrwydd a pherthynas â Llywodraeth Cymru	23
Digwyddiadau herio ac adolygu	24

Perthynas ag ysgolion	24
Arolygiad Estyn	24
5. Trefniadaeth a gweithrediad y consortia rhanbarthol	25
Trefniadaeth ganolog y consortiwm rhanbarthol	25
Swyddogaeth y rheolwr gyfarwyddwr	25
Cyllid	25
Amserlenni	26
Atodiad: Model llywodraethu'r consortia rhanbarthol	27

Cyflwyniad

Cafodd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ei ddatblygu a'i gymeradwyo gyntaf yn hydref 2013. Y nod oedd sicrhau bod y newidiadau a oedd ar droed yn digwydd yn gyflymach. Pwysleisiodd ymrwymiad o'r newydd i weithio'n rhanbarthol a chyflwynodd fodel ar gyfer gwella ysgolion a oedd yn seiliedig ar gydgefnogaeth, Roedd hyn yn rhywbeth newydd ar draws y rhan fwyaf o Gymru. Pennwyd y strwythurau a'r dulliau yr oedd eu hangen bryd hynny er mwyn cyflwyno'r newidiadau hyn.

Ar drothwy cyfnod o newidiadau pellach i awdurdodau lleol ac ar adeg o gyni mae'n bwysig sicrhau bod y model cenedlaethol yn cael ei ystyried yn ddogfen ganllaw a fydd yn ein helpu i barhau i gyflawni cynnydd ym maes gwella ysgolion. Mae'n hollbwysig, yn ogystal, ein bod yn cydnabod bod amrywiadau strwythurol a gweithredol rhwng y pedwar rhanbarth ac mae'r hyblygrwydd hwn yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y consortia barhau i fodloni anghenion eu rhanbarthau.

Mae'r fersiwn newydd hon o'r model cenedlaethol hefyd yn ceisio nodi'r cynnydd pwysig y mae'r consortia wedi'i gyflawni ers i'r model gael ei ddatblygu a'i gyhoeddi gyntaf. Mae'r diweddariad hwn i'r model yn adlewyrchu'r hyn sydd bellach yn arferol i'r consortia ac yn ceisio ei gofnodi'n ffurfiol o fewn y model. Er enghraifft, mae'r fersiwn newydd hon yn adlewyrchu'r ffaith bod system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion wedi'i chyflwyno a hefyd yn adlewyrchu'r ffaith bod Cynghorwyr Herio bellach yn rhan sefydlog o'n system.

Mae'r fersiwn hon o'r model cenedlaethol hefyd yn ceisio adlewyrchu'n well y cyd-destun y mae'r consortia'n gweithio oddi mewn iddo ar hyn o bryd yn hytrach na pharhau i adlewyrchu cyd-destun 2013/2014.

Nid yw holl elfennau'r wybodaeth gyd-destunol hon wedi'u datblygu'n llwyr, fodd bynnag. Mae'r system addysg yng Nghymru wrthi'n ymateb i newidiadau sylweddol gan gynnwys argymhellion adroddiad yr Athro Donaldson sef Dyfodol Llwyddiannus. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn holl argymhellion yr adroddiad hwn. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo ynglŷn ag ymrwymiad y Gweinidog i Fargen Newydd ar gyfer y proffesiwn addysgu.

Ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru'n arwain o safbwynt Her Ysgolion Cymru, gan gydweithio â'r consortia rhanbarthol. Mae'r rhaglen hon yn targedu 40 o ysgolion Llwybrau Llwyddiant sy'n wynebu heriau o ran eu hamgylchiadau a'u cam datblygu. Mae'r ysgolion hyn yn derbyn adnoddau ac arbenigedd ychwanegol er mwyn gallu gweithredu rhaglen o welliannau cyflym a chynaliadwy. Nod yr Her yw grymuso a pharatoi'r Ysgolion Llwybrau Llwyddiant hyn fel bod modd iddynt hunanwella'n barhaus, gan adeiladu ar arferion da presennol, rhoi cefnogaeth ychwanegol iddynt a monitro effaith eu hymdrechion. Mae'r rolau a'r cyfrifoldebau wedi'u dyrannu ymhlith yr holl bartneriaid a bydd Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio â'r consortia wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Nid oes modd egluro'r holl agweddau ar rôl y consortia mewn perthynas â'r datblygiadau hyn o fewn y ddogfen hon ar hyn o bryd. Eto i gyd, mae'r ymrwymiad i

sicrhau bod y consortia rhanbarthol yn elfennau canolog o'r system gwella ysgolion yng Nghymru yn parhau. Bwriedir sicrhau y bydd y consortia'n chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gyflawni'r datblygiadau sylweddol ar gyfer ein system addysg dros y blynyddoedd nesaf.

1. Cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion ar gyfer gwella ysgolion yn effeithiol

Gweledigaeth a diben

Mae llwyddiant Cymru yn y dyfodol yn ddibynnol ar bobl ifanc clyfar, medrus, hapus ac iach, ac ar system addysg a fydd yn helpu i'w meithrin. Diben y cytundeb hwn yw cyflawni hyn drwy ddatblygu ymhellach y modd y mae awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr ac athrawon a, thrwy'r broses hon, helpu i ragori wrth addysgu, a hynny mewn ystafelloedd dosbarth rhagorol o fewn ysgolion rhagorol. Y nod yw creu system addysg i Gymru a fydd yn gwella ei hun ac y bydd holl elfennau'r system, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol, wrth ei gwraidd.

Caiff y model cenedlaethol ei ddatblygu ar y cyd gan ysgolion, eu harweinwyr a'u llywodraethwyr, awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Mae'r model hefyd yn ceisio sicrhau bod gan bawb sy'n gweithredu o fewn y system rôl gydnabyddedig. Mae hyn yn cynnwys rhanddeiliaid pwysig a sefydliadau addysgol allweddol gan gynnwys cyrff esgobaethol, Estyn, cynrychiolwyr y gweithlu a Chyngor y Gweithlu Addysg. Mae'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan bob haen i'w chwarae i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall y model cenedlaethol greu'r strwythurau a diffinio'r fframwaith y bydd y bartneriaeth hon yn gweithio oddi mewn iddynt. Eto i gyd, i wella addysg a chyfleoedd bywyd yn y fath fodd ag y mae pob plentyn yng Nghymru yn ei haeddu, rhaid wrth ymrwymiad a diben moesol cyffredin drwy'r system gyfan.

Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion. Mae'r model cenedlaethol yn seiliedig ar weledigaeth o gonsortia rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a fydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlynu gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Eu swyddogaeth, o'r herwydd, yw cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:


- wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
- sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon;
- cefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.

Model ac egwyddorion allweddol ar gyfer gwella ysgolion

Mae ysgolion yn ganolog i'r model cenedlaethol newydd hwn. Cyfrifoldeb llywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, athrawon ac aelodau eraill o staff yw gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, gan geisio'n barhaus i wella safon yr addysgu a'r dysgu, codi safonau, rhannu arferion da a dysgu oddi wrth ei gilydd drwy bartneriaethau dilys a threfniadau cefnogi o ysgol i ysgol. Mae Ffigur 1 yn disgrifio

cylch blynyddol o wella ysgolion, yr ydym o'r farn y dylai pob ysgol ei fabwysiadu fel sail i'w cynlluniau datblygu ysgol. Bydd llawer o ysgolion yn gyfarwydd â'r model hwn a bydd rhai eisoes yn ei ddilyn.

Ffigur 1: Cylch blynyddol o wella ysgolion



Cam 1: Asesu ysgolion

Mae angen i ysgolion adnabod eu hunain a gwerthuso eu cryfderau a'u gwendidau. Mae asesu'n broses gyson i athrawon, arweinwyr ysgolion a llywodraethwyr, fel ei gilydd, ac mae'n seiliedig ar weithgarwch hunanwerthuso a chategoreiddio ysgolion.

Hunanwerthuso ysgolion

Mae hunanwerthuso o fewn ein hysgolion gorau yn broses barhaus sy'n cynrychioli diwylliant sefydlog o waith gwerthuso a gwella. Nid proses unigol unwaith y flwyddyn ydyw, eithr rhan barhaus o'r broses wella.

Mae hunanwerthuso'n cwmpasu pob agwedd ar ddysgu a phob agwedd ar fywyd yr ysgol. Dylai ysgogi rhaglen systematig o weithgareddau a fydd yn galluogi ysgol i archwilio sut y mae'n perfformio ar ran ei holl ddysgwyr. Mae angen inni sicrhau bod gan ysgolion y capasiti i wneud hyn a bod systemau clir o ddata craidd, syml a phwerus i'w cael i gefnogi'r broses hon. Dylai hynny gynnwys data meincnodi fel bod

modd i ysgolion gymharu eu hunain yn erbyn yr ysgolion gorau a'r rheini sy'n perthyn i'w teulu o ysgolion. Po fwyaf y bydd ysgolion yn ei 'pherchenogi', gyda chymorth yn ôl yr angen, y mwyaf llwyddiannus y bydd y broses honno a bydd yn cyfrannu at sicrhau bod yr ysgol cystal ag y gall fod er lles ei disgyblion. Mae Cynghorwyr Herio o fewn consortia'n rhoi her ac yn sicrhau hygrededd y broses – ac yn arbennig yn achos yr ysgolion hynny y mae angen y gefnogaeth fwyaf arnynt.

Cam 2: Cynllunio ar gyfer gwella

Dylai ysgolion ddefnyddio eu hasesiadau hunanwerthuso, a'r cryfderau a'r gwendidau a ddatgelir ganddynt, i benderfynu pa newidiadau y mae angen eu gwneud yn ystod y cyfnod sydd i ddod ac adlewyrchu'r rhain yn eu cynlluniau datblygu ysgol. Yn aml, bydd y syniadau hyn yn cael eu cynnig yn naturiol gan yr ysgolion a'r rhanddeiliaid (gan gynnwys staff, arweinwyr, llywodraethwyr etc) ond gellid hwyluso'r broses drwy sicrhau bod 'arferion da' ar gael gan ysgolion eraill. Bydd ysgolion sydd mewn perygl o beri pryder neu sy'n peri pryder yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hyn oddi wrth y cynghorwyr herio.

Dylai ysgolion osod targedau y gallant fesur eu perfformiad yn eu herbyn. Dylai'r targedau gynnwys gwella'r broses - er enghraifft, safon yr addysgu a'r dysgu, marcio llyfrau neu adborth - a'r deiliannau o ran gwella cyrhaeddiad a chynnydd. Gwaith y cynghorwyr herio fydd herio penaethiaid a llywodraethwyr i osod targedau i ymgynraedd atynt a fydd yn sicrhau bod lefelau cymhelliant yn uchel a bod cyrhaeddiad disgyblion yn sylweddol well.

Cam 3: Cyflawni gwelliannau

Dylai galluogi a chefnogi ysgolion i fanteisio ar amrywiaeth o ddulliau newydd a dulliau y profwyd eisoes eu bod yn llwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth, eu rhannu a'u defnyddio fod yn ganolog i gyflawni'r gwelliannau y mae angen i ysgolion eu gwneud. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni datblygu a fydd yn alinio hyfforddiant i athrawon â gwaith grŵp rhyngddynt i arsylwi ar ei gilydd a choetsio ei gilydd, ar gyfer rhoi arferion gwell ar waith a defnyddio ymarferwyr arweiniol. Mae arferion da i'w canfod ym mhob ysgol y gellir eu rhannu 'yn yr ysgol' ac y gellid eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer gweithgarwch gwella o ysgol i ysgol. Bydd mwy o ysgolion yn perthyn i ffederasiynau a mwy eto yn perthyn i glystyrau. Trwy'r trefniadau hyn bydd mwy o ddefnydd o brifathrawiaeth weithredol i gynyddu i'r eithaf werth a photensial ein harweinwyr ysgol gorau. Gallai awdurdodau lleol hefyd fod ar eu hennill yn sgil y newidiadau i drefniadaeth a llywodraethu a fydd yn deillio o waith gwella ysgolion.

Y consortia sydd bellach yn hwyluso ac yn trefnu'r cydweithio hwn. Ceir hefyd raglenni ar lefel consortiwm a fydd yn tynnu ar arbenigedd yr ymarferwyr a'r ysgolion gorau yn y rhanbarth. Bydd cymorth yn dod hefyd o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol ac, yn wir, o gymunedau lleol y gellid eu cydweddu ag anghenion ysgolion a'u hathrawon. Bydd gan y sectorau addysg bellach ac uwch hefyd lawer o unigolion a chyrsgiau a allai helpu i ddatblygu athrawon ac ysgolion. Beth bynnag y bo ffynhonnell y cymorth, mae'n hanfodol ei deilwra yn ôl cyd-destun cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol pob ysgol.

Dylid annog a galluogi ysgolion sydd â'r capasiti i wneud hynny i arwain ar eu gwelliannau eu hunain a defnyddio eu hadnoddau eu hunain, fel y bo'n briodol. Yng nghyswllt yr ysgolion hynny a allai beri pryder neu sy'n peri pryder, cyfrifoldeb y consortia fyddai helpu i gydweddu a broceru'r gefnogaeth sydd ei hangen ar yr ysgol yn unol â'r gefnogaeth sydd ar gael.

Dylid meithrin arweinyddiaeth ysgolion ar bob lefel (gan gynnwys llywodraethwyr) a'i datblygu drwy raglenni hyfforddiant, coetsio, neilltuo mentoriaid a chreu cyfleoedd i arweinwyr sy'n datblygu gael secondiad i ysgol arall.

Cam 4: Adolygu effaith

Dylai ysgolion, athrawon a chonsortia ystyried effaith eu gweithredoedd ar gyflawniad pob plentyn a phenderfynu sut i newid eu cynlluniau a'u camau gweithredu yn y dyfodol.

Cylch gwella'r consortia

Bydd y consortia'n dilyn athroniaeth debyg ar gyfer ysgolion o safbwynt y cylch cynllunio ac adolygu a ddisgrifir yn Ffigur 1. Mae'r cylch blynyddol o gynlluniau ar lefel ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia'n sicrhau bod holl rannau'r system yn cyd-fynd â'i gilydd.

Gan fod disgwyl i ysgolion gydweithio a rhannu mae ymrwymiad yn ogystal sy'n golygu y bydd y consortia'n cydweithio er mwyn rhannu eu harferion a chydweithredu ar sail ranbarthol a chenedlaethol. Mae cyfrifoldeb ar y consortia i gydweithio ar draws ffiniau rhanbarthol, gan rannu eu harferion da a sicrhau bod arbedion effeithlonrwydd a strategaethau a dulliau llwyddiannus yn cael eu dosbarthu'n fwy eang na'r cylch rhanbarthol yn unig.

Rôl y consortia rhanbarthol i weithredu'r model hwn

Dylid cynllunio gwasanaethau consortia ar y cyd ag ysgolion er mwyn symud tuag at systemau data a rennir. Dylai arbenigedd rhagorol mewn dadansoddi a herio anghenion gwella ysgolion fod wrth wraidd y gwasanaethau hyn. Ni ddylid dibynnu ar gyflogi nifer mawr o staff amser llawn i gyflenwi gwasanaethau consortia. Yn hytrach, dylai staff craidd fanteisio ar sgiliau'r ymarferwyr gorau yn eu rhanbarthau, ynghyd ag arbenigwyr ar wella ysgolion, a dylid bod yn hyblyg wrth ddefnyddio cyllidebau i gomisiynu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion.

Dylai'r berthynas a'r llinellau atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol fod yn glir er mwyn i bob un yn y system addysg ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth.

Mae'n rhaid i drefniadau'r consortia lleol hefyd sicrhau ymgysylltu buddiol â rhanddeiliaid allweddol eraill fel cyrff esgobaethol, undebau'r gweithlu a darparwyr ôl-16 a hefyd ystyried y ffordd orau o gynnwys mewnbwn gan y rhanddeiliaid hyn yn eu trefniadau ymgynghori a llywodraethu.

Bydd y modd y caiff y model hwn ei weithredu yn newid dros amser, wrth i'n system barhau i aeddfedu. Wrth i ysgolion ac athrawon ddatblygu, gan gynyddu mewn hyder a chasglu rhagor o wybodaeth, byddant yn disgwyl mwy o annibyniaeth, ymreolaeth a rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Yn yr un modd â threfniadau gwella eraill, bydd y consortia rhanbarthol yn datblygu ac yn y tymor hwy byddant yn newid o'u diwyg presennol, gan ddatblygu'n ysgolion ac yn arweinwyr a fydd yn herio a chefnogi ei gilydd o fewn system sy'n gwella ei hun.

2. Cwmpas y consortia rhanbarthol

Cwmpas gwasanaethau'r consortia rhanbarthol

Mae'n bwysig bod eglurder ynghylch cwmpas y swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir gan y consortia rhanbarthol.

Ar hyn o bryd, fodd bynnag, mae'r system addysg yng Nghymru wrthi'n rhoi datblygiadau sylweddol ar waith gan gynnwys argymhellion Dyfodol Llwyddiannus a'r "Fargen Newydd" ar gyfer y proffesiwn addysgu. Mae gan y consortia swyddogaeth allweddol mewn perthynas â'r datblygiadau hyn. Mae'r consortia wedi cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru er mwyn cyd-adeiladu'r Fargen Newydd ac maent yn chwarae rhan allweddol yn y broses bresennol o bennu Ysgolion Arloesi. Ni ellir, fodd bynnag, gwmpasu holl oblygiadau'r datblygiadau hyn ar hyn o bryd. Bydd diweddariadau pellach i'r model yn cyfeirio at y meysydd hyn ac yn eu datblygu ymhellach.

Dyma rai o'r gwasanaethau craidd a gynigir gan y consortia rhanbarthol:

- gwella ysgolion – a ddiffinnir fel strategaethau herio a chefnogi a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol a fydd yn gwella'r addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn arwain at well cyrhaeddiad a chynnydd ymhlith disgyblion ar bob lefel ac ym mhob cyd-destun;
- casglu, dadansoddi a chymhwyso data - a ddiffinnir fel casglu, oddi wrth awdurdodau lleol ac ysgolion, ddata ar berfformiad disgyblion ac ysgolion a'r cynnydd ar draws pob rhanbarth (yn seiliedig ar y setiau data a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru), gan ddefnyddio'r data hynny i feincnodi a herio perfformiad ysgolion a, gyda'r ysgolion eu hunain, gosod targedau heriol ar gyfer gwella;
- cyflenwi'r system genedlaethol ar gyfer categoraidd ysgolion, a adeiladwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y consortia, yr undebau a'r proffesiwn. Mae'r system hon wedi disodli'r systemau unigol blaenorol a ddatblygwyd gan bob consortiwm. Mae'r dull cenedlaethol hwn yn cefnogi ysgolion wrth iddynt werthuso eu hunain a chynllunio datblygiadau trwy hawl craidd i gefnogaeth;
- cefnogi datblygiad arweinyddiaeth ysgolion ar bob lefel - sy'n cynnwys datblygu cyfleoedd i arweinwyr sy'n datblygu ac arweinwyr ar lefel uchel i ddatblygu eu profiad a'u harbenigedd drwy fynd ar aseiniadau a secondiadau i ysgolion eraill, yn ogystal â chomisiynu a chydlynu'r ddarpariaeth o ran rhaglenni hyfforddi a datblygu;
- gwneud yn siŵr fod cymorth ar gyfer gwella ysgolion yn cynnwys sicrhau bod ysgolion yn ystyried lles dysgwyr ac yn cefnogi gwell safonau o ran ymddygiad a phresenoldeb;
- sicrhau bod y fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol yn cael eu cyflenwi'n effeithiol ar draws bob ysgol a chydlynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hyfforddi a datblygu i gyflawni hyn;

- herio perfformiad lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen, a'u dulliau cyflenwi, ac asesu'r angen am gefnogaeth o safbwynt hyfforddiant a datblygiad, cyn comisiynu, cydlynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth;
- alinio'r strategaethau 14-19 cenedlaethol a lleol ar draws ardal ehangach y consortiwm i helpu i godi safonau yn y pynciau craidd, sef Cymraeg/Saesneg a mathemateg, a sicrhau bod cyrsiau o safon yn cynnig hyfforddiant perthnasol i ddisgyblion a chyfrannu'n effeithiol at strategaethau adfywio;
- gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod eu cynlluniau ar gyfer datblygu a gweithredu strategaethau'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn mynd law yn llaw â'r cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion;
- sicrhau bod modd cyflawni nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru drwy wneud yn siŵr bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg wedi'u halinio ar draws pob un o'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r consortia rhanbarthol. Bydd hyn yn sicrhau cysondeb wrth ddatblygu rhagoriaeth mewn addysgeg, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd o ran cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith;
- dyfeisio neu gomisiynu, cydlynu a sicrhau ansawdd gwasanaethau o safon ar gyfer hyfforddi a chynghori llywodraethwyr, gan gynnwys y gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr;
- darparu neu sicrhau'r argaeledd o gyngor arbenigol ym maes adnoddau dynol i gefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethu i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â rheoli perfformiad a medruswydd, yn unol ag atodiad 1, *Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol – Adfywio Gwaith Rheoli Pobl mewn Ysgolion*: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150424-national-model-for-regional-working-cy.pdf>;
- sicrhau bod asesiadau gan athrawon yn cael eu cynnal mewn modd cyson a chywir a bod canlyniadau'r asesiadau hyn yn cael eu cymedroli'n drylwyr ar lefel ranbarthol ac yn ehangach.

Mae dyletswydd ar ysgolion i gyflenwi cwricwlwm priodol a chefnogaeth bersonol ac effeithiol ar gyfer eu holl ddisgyblion, beth bynnag y bo eu hanghenion dysgu ychwanegol. Bydd y consortia, fel rhan o'u cefnogaeth ar gyfer ysgolion, yn helpu i sicrhau'r ddarpariaeth orau ar gyfer pob grŵp o ddysgwyr, gan elwa ar arferion gorau ysgolion arbennig a darparwyr prif ffrwd. Dylai'r consortia nodi'n glir yn eu cynlluniau busnes sut y maent yn bwriadu manteisio ar gefnogaeth o'r fath, a dylent sicrhau bod y systemau data y maent yn eu mabwysiadu'n cynnwys holl wahanol nodweddion dysgwyr. Yn y bôn, bydd angen i'r consortia rhanbarthol nodi'n glir sut y maent yn bwriadu gweithio mewn partneriaeth â phob awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod cyswllt clir rhwng strategaethau gwella ysgolion a'r gefnogaeth ar gyfer y dysgwyr sydd â'r anghenion mwyaf.

Yr awdurdodau lleol fydd yn gyfrifol o hyd am gyflenwi gwasanaethau arbenigol, rhoi datganiadau i ddisgyblion ac am y gweithdrefnau cyfreithiol sy'n diogelu lles a hawliau plant ag anghenion arbennig. Dylai'r consortia sicrhau bod eu gwasanaethau hwy, ynghyd â gwasanaethau'r awdurdodau lleol ar gyfer disgyblion AAA, yn cyd-fynd â'i gilydd.

Yr awdurdodau lleol fydd hefyd yn gyfrifol am gyflenwi - naill ai drwy gyflogi eu staff eu hunain neu drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdod lleol arall – holl ystod y dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol mewn perthynas â gwasanaethau addysg gan gynnwys trefniadaeth ysgolion a lleoedd ysgolion, anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol, cludiant i'r ysgol, prydau ysgol, gwasanaethau diogelu, gwasanaethau lles addysg, ymddygiad a phresenoldeb a thâl ac amodau gwasanaeth gweithwyr. Mewn rhai achosion, gallai awdurdodau lleol mewn rhanbarth ddewis comisiynu elfennau o'r swyddogaethau hyn gan eu consortiwm. Mae'n rhaid sicrhau, fodd bynnag, le blaenllaw i wella ysgolion o fewn ymdrechion a gweithgarwch y consortia rhanbarthol.

Mae'r adrannau dilynol yn egluro'n fanylach sut y bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu system integredig sy'n cefnogi ysgolion ac yn osgoi dyblygu gwaith.

3. Cyflawni priod swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol

Rôl y consortia rhanbarthol

Mewn perthynas â gwella ysgolion, bydd y consortia rhanbarthol yn darparu her a chefnogaeth drwy:

- fonitro gwaith a pherfformiad ysgolion, gan ddefnyddio setiau data safonedig Cymru Gyfan, amcanestyniadau a data ysgolion unigol a data yn ystod y flwyddyn ar gynnydd disgyblion a safon yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth, i gategoreiddio perfformiad ac anghenion datblygu ysgol yn unol â'r model categoreiddio cenedlaethol cytunedig;
- ymchwilio, gydag arweinwyr ysgolion a chadeiryddion llywodraethwyr, i berfformiad a'r ddarpariaeth ar lefel ysgol gyfan ac ar gyfer amrywiol bynciau, grwpiau blwyddyn ac is-gategoriâu o ddisgyblion, er mwyn cymharu cynnydd disgyblion unigol, a/neu grwpiau ohonynt, â'r cynnydd a wnaed mewn ysgolion eraill tebyg a nodi meysydd o dangyflawni a bylchau mewn cyflawniad;
- cadarnhau, gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr, pa feysydd sydd i gael blaenoriaeth ar gyfer gwella a bennwyd yng nghynllun datblygu'r ysgol a'r strategaethau i'w defnyddio i gyflawni gwelliannau;
- cytuno ar dargedau a fydd yn ymestyn ac yn codi disgwyliadau, gosod y safon ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a darparu'r meini prawf ar gyfer llwyddo y bydd cyrhaeddiad a chynnydd pob disgybl yn cael eu mesur yn eu herbyn. Pan na ellir dod i gytundeb [yng nghyd-destun ysgolion sydd yn un o gategoriâu Estyn neu sy'n cael eu monitro gan Estyn], bydd y consortiwm yn hysbysu'r awdurdod lleol er mwyn i'r awdurdod, yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, allu gosod y targedau priodol;
- mae angen gwella'n sylweddol drefniadau asesu ysgolion sy'n destun mesurau arbennig, sy'n cael eu monitro gan Estyn neu awdurdod lleol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses categoreiddio, fel ysgol sy'n achosi pryder difrifol, a phennu p'un a oes gan lywodraethwyr a thimau arwain ysgolion y capasiti a'r ewylllys i arwain ar wella ysgol – a gwneud argymhellion priodol yn ôl yr angen;
- cynghori awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol ynghylch sefyllfaoedd lle y byddai ffedereiddio yn llesol i'r ysgolion ac yn arwain at well deilliannau addysgol.
- hysbysu awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol am y sefyllfaoedd hynny lle mae ymyrryd statudol yn ofynnol a darparu mewnbwn ar y math o ymyrryd y gellid ymgymryd ag ef - p'un a yw hynny yn golygu penodi llywodraethwyr ychwanegol, gwaredu cyllideb ddirprwyedig yr ysgol neu sefydlu fwrdd gweithredol interim neu fesur arall priodol.

Caiff y swyddogaethau hyn eu cymhwyso mewn modd cymesur - hynny yw, bydd yr ysgolion hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth yn cael eu monitro'n fwy agos. I'r gwrthwyneb, ni fydd angen monitro ysgolion sy'n perfformio'n gadarn mewn modd mor fanwl. Y swyddogaethau hyn, yn hytrach na chyflenwi rhaglenni a mentrau gwella ysgolion, fydd prif ffocws gweithgarwch y cynghorwyr herio.

Gallai cynghorwyr herio gael eu cyflogi'n amser llawn gan gonsortiw neu gellid eu penodi'n rhan-amser. Bydd gan y cynghorwyr herio y nodweddion angenrheidiol a byddant yn cyflawni'r gwaith yn unol â'r Safonau Cenedlaethol cymeradwy ar gyfer Cynghorwyr Herio:

<http://gov.wales/docs/dcells/publications/141009-challenge-advisers-cy.pdf>

Bydd y consortia rhanbarthol yn rhannu gwybodaeth fonitro ag awdurdodau lleol bob tymor, ac yn fwy rheolaidd na hynny yn achos ysgolion sy'n destun mesurau arbennig. Dyma ysgolion y mae angen iddynt wella'n sylweddol ac sy'n cael eu monitro gan Estyn neu awdurdod lleol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses gategoreiddio, fel ysgol sy'n achosi pryder difrifol (gweler isod).

Bydd y consortia rhanbarthol hefyd yn cydlynu, broceru ac yn rhoi cefnogaeth ar gyfer gwella i ysgolion. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu datblygu ar y cyd â phenaethiaid ac athrawon. Bydd y gweithgarwch broceru a'r gefnogaeth ar gyfer gwella yn cael eu gwahaniaethu yn ôl gallu ysgol i wella a chomisiynu/broceru ei chefnogaeth gwella ei hun. Lle asesir bod ysgol yn perfformio'n dda neu fod ganddi'r gallu i wneud ei gwelliannau ei hun, bydd yn rhydd i ddefnyddio ei chyllidebau i hawlio a defnyddio'r gwasanaethau fel sy'n briodol i'w hamgylchiadau a'i hanghenion gwella. Fodd bynnag, lle bo cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion yn isel mewn ysgol - a/neu lle bo diffyg gallu i hyrwyddo gwelliant yn gyffredinol neu mewn maes penodol - bydd y consortiw yn trefnu'r gefnogaeth gwella angenrheidiol ar ran yr ysgol gan ymgynghori â'r pennaeth a'r corff llywodraethu. Lle defnyddir gwasanaethau y codir tâl amdanynt caiff tâl ei godi ar yr ysgol fel sy'n briodol. Y nod yw meithrin capasiti pob ysgol i gymryd cyfrifoldeb am drefnu ei gwelliannau ei hun. Bydd gweithgarwch broceru a gwella'r consortiw yn cynnwys:

- hwyluso'r defnydd o ddata a'r gwaith o'u dadansoddi fel rhan o'r broses hon i gefnogi hunanwerthuso fforensig gan ysgolion a nodi bylchau mewn cyrhaeddiad;
- rhannu data meincnodi dienw ar berfformiad a chynnydd grwpiau cymharol mewn gwahanol bynciau a chyfnodau i alluogi ysgolion i ddysgu oddi wrth ei gilydd, a'u hannog i wneud hynny;
- cefnogi arweinwyr ysgolion, lle bo gan ysgol y gallu i arwain ar ei gwelliannau ei hun, i froceru cefnogaeth briodol gan ysgolion eraill, o raglenni a gomisiynwyd gan y consortia ac o ffynonellau eraill;
- goruchwylio'r gwaith o gyflwyno rhaglen gymorth, gan gynnwys cynghori ar recriwtio penaethiaid ysgolion a all weithredu fel penaethiaid gweithredol, yn yr ysgolion hynny sy'n destun mesurau arbennig, sydd angen gwella'n sylweddol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses gategoreiddio, fel rhai sy'n achosi pryder difrifol;

- comisiynu cyfres o raglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer yr ystafell ddosbarth yn bennaf i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu a gwybodaeth am bwnc, a sicrhau ansawdd y rhaglenni hynny;
- gweithio gyda phenaethiaid ac arweinwyr eraill drwy arsylwi ar wersi ar y cyd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw addysgu a dysgu rhagorol;
- enwi adrannau ac ymarferwyr arweiniol rhagorol, gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, y gellid eu defnyddio i gefnogi ysgolion eraill yn ystod rhan o'u hwythnos waith;
- darparu cefnogaeth fentora i benaethiaid a thimau arwain ysgolion, gan gynnwys Cadeiryddion cyrff llywodraethu, y mae angen cefnogaeth arnynt i arwain ar wella¹;
- annog, cymell a llywio ysgolion i weithio gyda'i gilydd ar wella ysgolion drwy glystyrau lleol o ysgolion;
- sicrhau bod modd cael gafael ar dystiolaeth o'r hyn 'sy'n gweithio' o ran cau bylchau mewn cyrhaeddiad a chefnogi ysgolion i roi ar waith strategaethau ymyrryd wedi'u targedu, ac i asesu eu heffaith;
- cefnogi'r gwaith o sefydlu a datblygu ffederasiynau lle cytunir bod hyn yn ffordd o roi trefniadau gwella ysgolion ar waith;
- cefnogi'r gwaith o ffurfio a sefydlu byrddau gweithredol interim lle cytunir bod hyn yn ffordd o roi gwelliannau ar waith mewn ysgolion a gwella trefniadau llywodraethu o fewn lleoliadau;
- hwyluso datblygiad a gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol, astudio gwersi a dulliau eraill i athrawon weithio gyda'i gilydd mewn ysgol ac ar draws ysgolion i adolygu a gwella eu harferion o ran addysgeg;
- gweithio gydag adrannau addysg prifysgolion i ddarparu mynediad at wybodaeth am addysgu a dysgu ac i gefnogi prosiectau ymchwil mewn ysgolion;
- cydlynu cefnogaeth a hyfforddiant i gynorthwywyr addysgu ac athrawon newydd gymhwyso.

Mewn perthynas â datblygu arweinyddiaeth ysgolion, bydd y consortia rhanbarthol, ar y cyd â phenaethiaid arweiniol, yn:

- comisiynu gan ysgolion, prifysgolion a darparwyr arbenigol eraill raglenni datblygu a hyfforddi ar gyfer arweinwyr canol i wella eu sgiliau a sicrhau eu bod yn gallu dadansoddi a defnyddio data, asesu ansawdd y dysgu yn yr ystafell ddosbarth a choetsio cydweithwyr;

¹Dylai'r gefnogaeth hon gael ei darparu gan bennaeth sy'n gweithio ar hyn o bryd (a'r tîm arwain yn ehangach) mewn ysgol sy'n perfformio'n gadarn - er enghraifft, ysgol sy'n ymarferydd arweiniol

- cefnogi trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy weithio gydag awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol i gasglu data ar y trosiant a'r ymddeoliadau y disgwylir eu gweld ymhlith uwch-arweinwyr mewn ysgolion;
- comisiynu gan ysgolion, prifysgolion a darparwyr arbenigol eraill raglenni datblygu a hyfforddi ar gyfer arweinwyr sy'n datblygu ar lefel uwch - gan adlewyrchu gwaith y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol wrth iddo ddatblygu;
- comisiynu rhaglenni a fydd yn galluogi penaethiaid effeithiol i gefnogi ysgolion eraill, bod yn bennaeth gweithredol, arwain ffederasiwn neu weithio am ran o'r wythnos fel cynghorydd herio;
- cymell cyfleoedd i arweinwyr datblygol gael mynd ar secondiad arweinyddiaeth i ysgolion eraill, a chydlynu'r cyfleoedd hynny;
- sicrhau bod modd i bob pennaeth newydd sy'n ei flwyddyn gyntaf o brifathrawiaeth fanteisio ar gymorth gan fentor effeithiol i benaethiaid.

Drwy'r broses herio, bydd y consortia rhanbarthol yn asesu anghenion cyffredinol a phenodol ysgolion ym mhob ardal awdurdod lleol gan ystyried yr hyfforddiant a'r datblygiad penodol sydd eu hangen arnynt o ran llythrennedd a rhifedd. Trwy ymgynghori â phenaethiaid bydd y consortia yn comisiynu ac yn hwyluso strategaeth ar gyfer darparu'r amrediad o gefnogaeth sy'n angenrheidiol yn yr ystafell ddosbarth.

Mae cefnogaeth ar gyfer Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys herio arweinwyr lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen a chyd-drafod â phenaethiaid a darparwyr eraill i archwilio anghenion hyfforddi ac i gomisiynu amrediad priodol o raglenni a sicrhau eu hansawdd.

Bydd y consortia yn cydlynu ac yn sicrhau ansawdd gweithgarwch i fodloni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg, Grant Cymraeg mewn Addysg a gweithgarwch cysylltiedig a gefnogir gan y Grant Gwella Addysg ar draws ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol yn gydnaws â'i gilydd. Diben hyn yw sicrhau cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.

Bydd cydlynu dimensiwn rhanbarthol y Strategaeth TGCh yn cynnwys hunanwerthuso TGCh ysgolion, arweinyddiaeth a chynllunio TGCh ar gyfer dysgu, diogelu, technolegau datblygol, rhith-amgylcheddau dysgu, technoleg dysgu a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, rhedeg rhwydweithiau ar gyfer penaethiaid adrannau a chydlynwyr TGCh, cefnogi addysgeg a datblygu cwricwlwm (gan gyfeirio at y Strategaeth Dysgu a'r Byd Digidol).

Bydd y trosolwg strategol o'r cynnig 14-19 rhanbarthol, gan gynnwys neilltuo adnoddau i raglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- cefnogaeth i gynllunio'r defnydd o gymorth grant;

- sicrhau bod darpariaeth ysgolion a darparwyr yn gydnaws â'i gilydd er mwyn cael yr effaith ddisgwyliedig sy'n gynhenid i'r grantiau hyn;
- gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynu a chefnogi ceisiadau ar gyfer cyfleoedd grant a fydd yn codi.

Bydd y consortia rhanbarthol yn comisiynu neu'n darparu gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr a hyfforddiant i lywodraethwyr a fydd yn cynnwys y rhaglenni hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr, a hyfforddiant ar ddeall a chymhwysio data yn effeithiol i bob llywodraethwr. Bydd hyn hefyd yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Bydd y consortia hefyd yn annog ac yn hwyluso rhwydweithiau o lywodraethwyr, yn galluogi llywodraethwyr i arsylwi ar gyfarfodydd ei gilydd a recriwtio cadeiryddion llywodraethwyr galluog i fentora cyrff llywodraethu eraill sy'n ei chael hi'n anodd ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Bydd y consortia hefyd yn datblygu ar y cyd, gan ymgynghori ag awdurdodau lleol, awdurdodau esgobaethol, llywodraethwyr a phenaethiaid, dempled ar gyfer data ar berfformiad i benaethiaid ei ddefnyddio i adrodd i lywodraethwyr, fesul tymor neu fesul hanner tymor, ar berfformiad ysgol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â:

- pherfformiad disgyblion a safonau;
- presenoldeb disgyblion;
- gwahardd disgyblion;
- absenoldeb staff drwy salwch ac absenoldebau eraill (gan gynnwys trefniadau cymryd gwersi a chostau athrawon cyflenwi);
- ansawdd yr addysgu (a gaiff ei asesu drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth);
- data ar gynnydd a chyrhaeddiad mewn perthynas â thargedau.

Bydd y consortia hefyd yn pennu pwll o ymgeiswyr galluog a fydd yn barod i wasanaethu ar gyrrff llywodraethu lle bo'r llywodraethu yn wan.

Wrth arfer y swyddogaethau hyn bydd yn rhaid ystyried materion cyllid sy'n gysylltiedig â'r gefnogaeth i lywodraethwyr a gaiff eu dirprwyo i ysgolion mewn rhai awdurdodau.

Bydd y consortia rhanbarthol yn darparu cyngor arbenigol ar adnoddau dynol i ysgolion yn unol ag Atodiad 1, *Y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol – Adfywio Gwaith Rheoli Pobl mewn Ysgolion*: <http://gov.wales/docs/dcells/publications/150424-national-model-for-regional-working-cy.pdf>. Ni fydd y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol yn dyblygu gwaith ei gilydd.

Bydd y consortia rhanbarthol yn trafod eu hymyriadau statudol mewn ysgolion â'r awdurdodau lleol ac yn darparu cyngor iddynt yn eu cylch. Gallai fod gofyn iddynt yn

ogystal gyflawni rhai o'r ymyriadau hynny ar ran yr awdurdodau lleol. Yr awdurdodau lleol, fodd bynnag, fodd yn cynnal y pwerau statudol ar gyfer gweithredu ymyriadau.

Cyflwynwyd y Grant Gwella Addysg ar gyfer Ysgolion ym mis Ebrill 2015, gan ddisodli nifer o ffrydiau cyllid grant unigol. Dyma drefniant grant unigol a newydd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Bwriad y Grant yw cynorthwyo awdurdodau lleol a chonsortia i wella deilliannau a gorchfygu rhwystrau fel y gall dysgwyr gyflawni hyd eithaf eu gallu drwy ddarparu cefnogaeth a chyfleoedd datblygiad proffesiynol. Mae'r Grant Gwella Addysg yn dwyn ynghyd wahanol ffrydiau cyllido grant blaenorol er mwyn ceisio sicrhau cyn lleied â phosibl o fiwrocratiaeth a chaniatáu hyblygrwydd ar lefel ranbarthol a lleol, gan ddefnyddio cyllid i gefnogi blaenoriaethau rhanbarthol a lleol.

Er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cyd-fynd yn well â'n blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol a hefyd ein strategaethau, camau gweithredu a'n camau cyflenwi, mae'n rhaid i awdurdodau lleol a'r consortia ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflenwi'r amcanion a blaenoriaethau strategol a gaiff eu pennu yn Cymwys am Oes. Dylai'r Grant Gwella Addysg hefyd cefnogi gwelliant yng nghyrhaeddiad disgyblion, o'r Dosbarth Derbyn hyd CA4.

Rôl y consortia

Mater i'r consortia a'r awdurdodau lleol yw gwerthuso anghenion, cryfderau a gwendidau lleol a chynllunio'r ffordd orau o ddefnyddio'r Grant Gwella Addysg er mwyn cyflenwi'r cynllun rhanbarthol. O fewn strwythur fframwaith deilliannau cymeradwy, mae'n rhaid i'r consortia a'r awdurdodau lleol nodi eu camau gweithredu a'r mesurau y byddant yn eu defnyddio ar gyfer monitro cynnydd o ran cyflenwi'r deilliannau hyn. Dylai'r mesurau adlewyrchu blaenoriaethau lleol, fod yn gymesur a hefyd gyd-fynd â'r amcanion a blaenoriaethau strategol a'r nodau a deilliannau cyffredinol y cytunwyd arnynt. Caiff y mesurau hyn eu defnyddio fel tystiolaeth o effaith y Grant Gwella Addysg ac er mwyn mesur a yw'n cynrychioli gwerth am arian. Caiff y cylch blynyddol o waith cynllunio busnes ei ddefnyddio ar gyfer monitro camau gweithredu a chynnydd.

Cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol

Yr awdurdodau lleol fydd yn parhau i ysgwyddo'r atebolrwydd statudol am berfformiad ysgolion ynghyd â'r cyfrifoldeb am arfer pwerau statudol o safbwynt ymyrryd a threfniadaeth ysgolion.

Bydd awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol yn dynodi swyddog arweiniol a fydd yn brif bwynt cyswllt â'r consortiwm rhanbarthol, yn unol â'u trefniadau a ddisgrifir isod.

Bydd yr awdurdodau lleol, yr awdurdodau esgobaethol a'r consortia rhanbarthol yn cael trafodaethau agored â'i gilydd am eu cynlluniau a ddylai fod yn gwbl glir am eu priod swyddogaethau, a'r camau y mae pob un yn bwriadu eu cymryd. Bydd y prosesau hyn yn golygu nad oes perygl o ran dyblygu gwaith rhwng y consortia rhanbarthol, yr awdurdodau esgobaethol neu'r awdurdodau. Yn benodol, dylai

awdurdodau lleol rannu gwybodaeth â'r consortia rhanbarthol am eu cynigion a'u penderfyniadau mewn perthynas â'r:

- weledigaeth gyffredinol a'r blaenoriaethau cymdeithasol a datblygu economaidd ar gyfer eu hardaloedd, gan ystyried yn benodol unrhyw faterion sy'n debygol o effeithio ar ysgolion;
- trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ffederasiynau, uno a chau a chyflwyno strategaethau'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif;
- cefnogi gwasanaethau ar gyfer y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol;
- trefnu gwasanaethau cymorth ymddygiad a lles addysg;
- eu strategaeth ymgysylltu ieuencid;
- trefniadau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc;
- trefniadau i hyrwyddo caffael effeithiol a datblygu gwasanaethau cymorth busnes mewn ysgolion.

Bydd awdurdodau lleol yn rhoi mynediad at systemau data perthnasol i gonsortia rhanbarthol, gan gynnwys setiau data dienw ar berfformiad disgyblion, lle cânt eu dal ar lefel awdurdod lleol, a gwybodaeth arall i hwyluso eu gwaith.

Ni fydd awdurdodau lleol yn dyblygu gwaith na gweithgarwch y consortia rhanbarthol.

Bydd datblygu cysylltiadau cadarn rhwng awdurdodau lleol a chonsortia yn golygu y bydd y ddwy ochr yn ystyried, gyda'i gilydd ac ar fyrder, yr argymhellion ar ymyrryd statudol mewn ysgolion a ddaw o unrhyw ffynhonnell.

4. Llywodraethu ac atebolrwydd

Cydbwyllgorau

Cydbwyllgor yw'r term a gaiff ei ddefnyddio o hyn ymlaen wrth gyfeirio at y Cydbwyllgor neu Fwrdd Cwmni oni nodir fel arall.

Bydd gwaith y consortiwm rhanbarthol yn cael ei oruchwylio gan gydbwyllgor² yr awdurdodau lleol cyfansoddol neu Fwrdd Cwmni, gan ddibynnu pa un sy'n bodloni orau ofynion y rhanbarth i gyflawni'r swyddogaethau a'r deilliannau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai awdurdodau lleol nodi y gallai'r Cydbwyllgor wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar y modd y caiff gwasanaethau eu cyflenwi a'r adnoddau sydd ar gael ar gyfer gwella perfformiad ysgolion. O ganlyniad, mae'n gwbl allweddol fod awdurdodau lleol yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu y maent yn eu sefydlu ar gyfer eu consortiwm yn cyd-fynd â dulliau'r awdurdod ar gyfer gwneud penderfyniadau, gan sicrhau atebolrwydd democrataidd. Bydd y cydbwyllgor yn gyfrifol am gymeradwyo cyllideb y consortiwm, cynllun busnes y consortiwm a hefyd am wneud penderfyniadau ynghylch perfformiad y consortia rhanbarthol.

Dylai'r awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod gan aelodau'r Cydbwyllgor:

- y sgiliau a'r profiad cywir a phriodol ynghyd â'r lefel briodol o gyfrifoldeb i wneud penderfyniadau (a bod deiliaid swyddi newydd (yn dilyn etholiadau, er enghraifft) yn cael eu hyfforddi'n briodol ac yn deall gofynion y rôl);
- dealltwriaeth glir o'u cydgyfrifoldeb yn rhanbarthol;
- eglurder ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a sut y mae'r rhain yn cydweddu â'r atebolrwydd democrataidd.

Gall aelodau cydbwyllgor gynnwys arweinydd pob awdurdod lleol cyfansoddol neu'r sawl sy'n gyfrifol am y portffolio addysg. Nhw fydd y corff a fydd yn gwneud penderfyniadau a bydd gan yr aelodau etholedig hawliau pleidleisio llawn. Bydd y prif weithredwr arweiniol yn darparu cyngor i'r cydbwyllgor a/neu'r bwrdd cynghori.

Lle y caiff y strwythur hwn ei fabwysiadu, dylai aelodaeth y bwrdd cwmni adlewyrchu trefniadau priodol sy'n cyd-fynd â phrosesau'r awdurdodau lleol. Dylai'r consortia rhanbarthol sydd â byrddau cwmni sicrhau nad yw'r trefniadau yn tanseilio penderfyniadau gan awdurdodau lleol ac atebolrwydd democrataidd.

² Mae adrannau 101 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ac yn achos Swyddogaethau Gweithredol, adrannau 19 a 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau perthnasol a wnaed o dan yr adrannau hyn) yn galluogi i waith awdurdodau gael ei wneud drwy amrywiaeth o drefniadau mewnol ac, yn y cyd-destun hwn, drefniadau allanol sy'n cynnwys awdurdodau eraill ac sy'n golygu gweithio gyda hwy. Yn benodol, mae'r pwerau hyn yn cynnwys gallu dau neu fwy o awdurdodau i gyflawni eu swyddogaethau ar y cyd, a phan fo hynny'n digwydd, eu cyflawni drwy gydbwyllgor, a/neu gan eu swyddogion.

Fel arfer, bydd y cydbwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith yn ystod tymor ysgol i oruchwylio gwaith y consortiwm. Bob blwyddyn, bydd un cyfarfod yn canolbwyntio ar ystyried y cynllun busnes drafft a'r gyllideb gysylltiedig a chytuno arnynt. Bydd y cynllun busnes hefyd yn cynnwys adroddiad gan reolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar y deilliannau. Bydd y cyfarfodydd yn canolbwyntio ar fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun. Ar ôl ymgynghori â'r rheolwr-gyfarwyddwr a'r prif weithredwr arweiniol, bydd cadeirydd y pwyllgor arweiniol yn cytuno ar yr agenda a'r papurau y bydd angen eu paratoi ar gyfer pob cyfarfod o'r cydbwyllgor.

Dylai'r Cydbwyllgor sefydlu trefniadau ar gyfer penodi uwch-aelodau o'r staff ac ar gyfer delio â materion yn ymwneud ag adnoddau dynol megis cwynion.

Fel arfer, caiff hysbysiad o gyfarfodydd yr uwchbwyllgor eu rhoi ar wefan y consortiwm a bydd modd i'r cyhoedd fod yn bresennol ynddynt. Eto i gyd, gallai trefniadau gael eu gwneud ar gyfer clywed rhai eitemau (er enghraifft y trefniadau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol) yn breifat.

Y bwrdd cynghori

Caiff cydbwyllgorau eu cefnogi gan fwrdd cynghori (er mewn gwahanol gonsortia, efallai y swyddogaeth hon gael ei alw gan enw gwahanol) a fydd yn gyfrifol am gefnogi a herio gwaith y consortiwm rhanbarthol a chyflwyno diweddariadau ynghylch cynnydd a chynghor i'r cydbwyllgor.

Cyfrifoldeb y Cydbwyllgor a'r awdurdodau lleol cysylltiedig yw pennu'r strwythurau oddi tano lefel y Cydbwyllgor. Mae'r disgrifiadau o rôl y bwrdd cynghori'n deillio o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ystod y broses o lunio'r model cenedlaethol.

Awgryma Llywodraeth Cymru y gallai aelodaeth y bwrdd cynghori, a benodir gan y cydbwyllgor, gynnwys:

- un cynrychiolydd o'r cydbwyllgor a fydd hefyd yn hyrwyddo'r consortiwm yn y rhanbarth;
- enwebai o Lywodraeth Cymru (statws sylwedydd);
- cyfarwyddwr addysg arweiniol;
- rheolwr gyfarwyddwr;
- dim mwy na [phump] unigolyn a fydd yn cael eu penodi, gyda chymeradwyaeth y cydbwyllgor, am eu harbenigedd mewn addysg, arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol. Bydd y sawl a enwebir yn cynnwys o leiaf un pennaeth sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn ysgol yn ardal y consortiwm;
- dylid hefyd ystyried ennyn diddordeb rhanddeiliaid eraill allweddol gan gynnwys awdurdodau esgobaethol etc wrth ffurfio cyfansoddiad y bwrdd cynghori ynghyd â fforymau eraill ymgynghori a rhai ar gyfer rhanddeiliaid y gallai'r consortia ddewis ymwneud â hwy.

Gan adrodd yn rheolaidd wrth y Cydbwyllgor, gallai'r bwrdd cyngori oruchwylio meysydd fel:

- strategaeth - bydd aelodau'r bwrdd cyngori yn herio, mewn ffordd adeiladol, ddatblygiad strategaeth a fydd yn cael ei gweithredu i fodloni nodau'r sefydliad, ac yn cyfrannu ati;
- cynllunio busnes - bydd aelodau'r bwrdd cyngori yn ystyried ac yn cyflwyno argymhellion ynghylch y cynllun busnes i'r cydbwyllgor;
- cyfrannu at y dull sicrhau ansawdd a fabwysiadwyd gan y consortia ac ystyried a yw dulliau penodol yn sicrhau gwerth am arian;
- monitro perfformiad y consortia a'r cynnydd o safbwynt bodloni ei nodau a'i amcanion a chyflwyno'r diweddaraf ynghylch cynnydd;

Fel arfer, bydd y rheolwr gyfarwyddwr a chadeirydd y bwrdd cyngori yn mynychu cyfarfodydd y cydbwyllgor.

Dylid nodi'n glir mai swyddogaeth y bwrdd cyngori yw cyflwyno cyngor i'r cydbwyllgor. Y cydbwyllgor yw'r corff a fydd yn gwneud y penderfyniadau.

Gweler yr Atodiad am enghraifft o'r model llywodraethu.

Adolygu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd

Dylai cydbwyllgorau, byrddau cyngori a chonsortia adolygu'n rheolaidd eu trefniadau llywodraethu a'u strwythurau atebolrwydd mewnol, a hynny'n unol ag adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig Mehefin 2015 ac argymhelliad 5. Dylent edrych yn benodol ar y canlynol:

- gwella eu defnydd o gamau hunanwerthuso mewn perthynas â'u perfformiad a'u trefniadau llywodraethu;
- gwella camau rheoli perfformiad a chynllunio busnes;
- gwella camau rheoli risg;
- datblygu ymhellach eu trefniadau rheoli ariannol;
- ystyried dulliau o ddatblygu cyd-drefniadau ar gyfer craffu o safbwynt y consortia'n gyffredinol a hefyd ar gyfer craffu ar awdurdodau lleol unigol;
- sicrhau bod unrhyw benderfyniadau'n cael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw;
- datblygu strategaethau cadarn ar gyfer cyfathrebu.

Cynllun busnes cyffredinol y consortiwm rhanbarthol

Bydd pob consortiwm rhanbarthol yn llunio cynllun ar gyfer cyfnod o 3 blynedd. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys cynllun busnes manwl dros gyfnod o 12 mis ynghyd â

phenawdau ar gyfer y 2 flynedd ddilynol ar ffurf blaenoriaethau a cherrig milltir allweddol. Bydd ar ffurf templed cyffredinol a fydd yn nodi:

- crynodeb o amcanion strategol, deilliannau â blaenoriaeth a thargedau'r consortiwm;
- adroddiad yn crynhoi perfformiad ysgolion y consortiwm dros y 12 mis diwethaf a dadansoddiad o'r prif gryfderau a gwendidau o fewn y consortiwm;
- y blaenoriaethau ar gyfer gwella - o ran ysgolion a materion trawsbynciol penodol;
- y rhaglenni gwaith sydd i'w cynnal dros y 12 mis canlynol;
- y gwelliant mesuradwy ym mherfformiad ysgolion sydd i'w gyflawni dros y 12 mis canlynol;
- amlinelliad o flaenoriaethau allweddol a cherrig milltir y 2 flynedd ddilynol;
- cofrestr risg strategol ar lefel uchel.

Bydd y cynllun busnes drafft yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor i'w gymeradwyo. Bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn adrodd wrth y Cydbwyllgor ar ganlyniad trafodaethau ag awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ynghylch y cynllun drafft, a gaiff eu cynnal yn unol â'r trefniadau isod. Bydd y cynllun busnes a'r gofrestr risg, fel y cytunwyd arnynt gan y cydbwyllgor, yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru er gwybodaeth a fel bod modd cyflwyno sylwadau arnynt erbyn mis Mawrth bob blwyddyn.

Cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol

Yn ogystal â'r cynllun busnes cyffredinol, bydd y consortia rhanbarthol yn llunio atodiad ar gyfer pob awdurdod lleol yn y consortiwm.

Bydd yr holl awdurdodau lleol yn darparu i'w consortiwm ddatganiad o unrhyw newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud dros y 12 mis nesaf o ran trefniadaeth ysgolion a'u trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau allweddol.

Bydd yr atodiad a'r datganiad yn cael eu trafod yn unigol gyda phob awdurdod drwy gyfarfod gyda'r swyddog arweiniol a'r aelod etholedig sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau plant ac addysg.

Bydd Arweinydd yr awdurdod lleol yn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r consortia'n eu galluogi i gynnal trosolwg o'u dyletswyddau statudol a sicrhau atebolrwydd yn eu cylch.

Bydd angen i atodiad y cynllun busnes gydweddu â chynlluniau corfforaethol eraill yr awdurdod lleol a'r Cynllun Sengl.

Caiff unrhyw bryderon neu geisiadau gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â chynnwys y cynllun busnes drafft na all y rheolwr gyfarwyddwr a'r awdurdod cyfansoddol gytuno arnynt eu hadrodd i aelodau'r Cydbwyllgor wrth iddynt ystyried y cynllun drafft.

Wedi cytuno ar atodiad cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol, gallai'r atodiad hwnnw, ar ôl iddo gael ei gymeradwyo, ffurfio Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y consortiwm a'r awdurdod lleol.

Craffu a chyswllt rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

Bydd y consortia rhanbarthol yn enwebu uwch swyddog i gysylltu â swyddog arweiniol pob awdurdod. Cyfrifoldeb y swyddogion hynny fydd cytuno ar gwmpas eu cyfarfodydd a pha mor aml y'u cynhelir.

Yn achos pob awdurdod lleol, bydd eu consortiwm rhanbarthol perthnasol yn gwneud trefniadau ar gyfer craffu'n ddemocrataidd ac yn gadarn ar gynllun busnes a gweithgareddau pob consortiwm mewn perthynas â'u hardal awdurdod lleol perthnasol. Bydd angen digon o wybodaeth hefyd ar bwyllgor craffu ar wasanaethau addysg pob awdurdod i allu ystyried perfformiad eu hysgolion.

Bydd angen i'r consortia a'u Cydbwyllgorau hefyd sicrhau craffu effeithiol o'r cynllun busnes cyflawn, y dulliau cyflenwi a hefyd y gwaith craffu gan awdurdodau unigol. Gallai hyn gael ei wneud drwy waith a gaiff ei gydlynu gan bwyllgorau craffu'r awdurdodau lleol neu drwy drefniadau eraill a gaiff eu pennu a'u cymeradwyo gan y Cydbwyllgor.

Mae awdurdodau lleol yn ymrwmo i fod yn rhesymol o ran yr hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl gan staff ac adnoddau'r consortia a sicrhau na fydd yn rhaid i uwch-arweinwyr dreulio gormod o amser ar waith adrodd a chraffu.

Atebolrwydd a pherthynas â Llywodraeth Cymru

Bydd angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo'n flynyddol y cyllid sydd ar gael drwy grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer pob un o'r consortia a hefyd gyflwyno sylwadau ar y cynllun busnes blynyddol mewn perthynas â pholisïau cenedlaethol.

Bydd rheolwr gyfarwyddwr pob consortiwm yn cyfarfod â swyddogion arweiniol Llywodraeth Cymru bob hanner tymor, yn ysbryd datblygu ar y cyd, i:

- drafod cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes y consortia;
- rhannu gwybodaeth am weithio fel consortia;
- nodi ffactorau sy'n hwyluso cynnydd ar wella ysgolion neu sy'n ei ddal yn ôl;
- cydgysylltu ynglŷn â rhoi rhaglenni a mentrau'r Llywodraeth ar waith.

Digwyddiadau herio ac adolygu

Bydd herio ac adolygu fwyaf effeithiol pan fydd gan y consortiwm rhanbarthol broses onest a thryloyw ar gyfer hunanwerthuso ynghyd â pherthynas waith â swyddog cyswllt Llywodraeth Cymru sydd yr un mor onest a thryloyw.

Yn ystod misoedd cyntaf 2016 bydd Llywodraeth Cymru, yr awdurdodau lleol a'r consortia'n adolygu diwyg presennol y digwyddiadau herio ac adolygu ac yn diwygio'r dull er mwyn sicrhau mwy o gydweithio ond hefyd dull sy'n fwy cadarn a chynhwysfawr o adolygu'r system.

Unwaith y caiff y dull hwn ei ddatblygu bydd rhagor o fanylion yn cael eu cyhoeddi ynghylch y trefniadau diwygiedig.

Perthynas ag ysgolion

Bydd pob consortiwm yn sicrhau ei fod yn ymgynghori'n effeithiol ag arweinwyr ysgolion a hefyd llywodraethwyr ysgolion. Dylai sicrhau trefniadau cyfathrebu clir rhwng grwpiau o benaethiaid a llywodraethwyr, gan gynnwys panel ar draws y rhanbarth a fydd yn trafod cynlluniau a chynigion ar gyfer datblygu gwelliannau i ysgolion a derbyn adborth ynghylch ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd o ran swyddogaethau herio a chefnogi'r consortiwm. Bydd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig.

Bydd y paneli defnyddwyr yn cyfarfod bob tymor o leiaf a bydd y cyfarfod yn yr Hydref yn ystyried y cynllun busnes drafft ar gyfer y flwyddyn nesaf. Caiff unrhyw bryderon sylweddol sydd gan arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion mewn perthynas â chynnwys y cynllun busnes drafft eu hadrodd i'r cydbwyllgor wrth iddo ystyried y cynllun drafft.

Dylai'r consortia hefyd wneud trefniadau i gasglu adborth yn rheolaidd oddi wrth y rheini a fydd yn cymryd rhan yn eu rhaglenni a dylid cydgasglu'r wybodaeth a'i chyflwyno i'r paneli defnyddwyr.

Arolygiad Estyn

Cynhaliodd Estyn astudiaeth cylch gwaith ynghylch cynnydd y consortia ym mis Tachwedd 2014. Cyhoeddwyd yr adroddiad sef 'Gwella ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol' ym mis Mehefin 2015. Cyhoeddwyd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar yr un pryd sef 'Sicrhau gwelliannau yn y cymorth i ysgolion trwy gonsortia addysg rhanbarthol – darlun cynnar'.

Bydd y consortia'n cael eu harolygu yn ystod gwanwyn-haf 2016, ac mae Estyn yn bwriadu cynnal ymweliadau dilynol â'r consortia flwyddyn yn ddiweddarach. Bydd Estyn yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith gwaith y consortia ar y safonau y mae dysgwyr yn eu cyflawni, ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i ysgolion ac ansawdd trefniadau arwain a rheoli'r consortia.

5. Trefniadaeth a gweithrediad y consortia rhanbarthol

Trefniadaeth ganolog y consortiwm rhanbarthol

Gallai'r consortia benderfynu, oherwydd maint daearyddol y rhanbarth neu'r angen i adlewyrchu gwahaniaethau o ran diwylliant ac iaith, drefnu bod eu gwasanaethau yn cael eu darparu drwy ganolfannau. Penderfyniad y Cydbwyllgorau fydd hwn. Fodd bynnag, dylai pob consortiwm sicrhau bod digon o arbenigwyr yn y canol i reoli'r swyddogaethau gofynnol ar draws y consortiwm.

Swyddogaeth y rheolwr gyfarwyddwr

Mae swyddogaeth y Rheolwr-Gyfarwyddwr bellach wedi'i hen sefydlu ac mae pobl wedi'u penodi'n barhaol yn y swyddi hyn ar gyfer arwain y consortia. Caiff y swyddogaeth ei disgrifio yn y papur a gyhoeddwyd ynghylch Adnoddau Dynol. Er bod y weledigaeth wreiddiol ar gyfer y swyddogaeth wedi'i chadarnhau o'r newydd bernir bellach mai mater i'r Cydbwyllgorau a'r awdurdodau lleol fydd datblygu'r swyddogaeth ymhellach. Nid oes angen strategaeth genedlaethol ar gyfer gwneud hyn.

Cyllid

Bydd tair ffynhonnell yn cyllido'r consortia rhanbarthol:

Cyllid Craidd Awdurdodau Lleol

Ymrwymodd³ awdurdodau lleol yn 2013 i darparu cyllid ar gyfer gwella ysgolion a'i drosglwyddo'n uniongyrchol i'r consortia.

Ers 1 Ebrill 2014 cafodd y cyllid a drosglwyddir ei gadw gan yr awdurdod ariannol arweiniol ar ran y consortiwm gan sicrhau ei fod ar gael yn llawn i'r consortiwm. Byddai adnoddau ariannol pellach yn cael eu hychwanegu pe bai rhagor o swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i'r consortiwm.

Bob blwyddyn, bydd swyddogion ariannol arweiniol pob consortiwm yn nodi cyllid y consortia rhanbarthol. Bydd lefel y cyllid y cynigir ei throsglwyddo o bob awdurdod lleol i'r consortia yn cael ei chyflwyno i'r Cydbwyllgor am gymeradwyaeth.

Cyllid penodol ar gyfer ysgolion a gwella ysgolion a ddarperir drwy'r consortia gan Llywodraeth Cymru

Caiff prif grantiau'r Llywodraeth (megis y Grant Gwella Addysg) a'r arian cyfatebol cysylltiedig gan yr Awdurdodau Lleol eu trosglwyddo drwy'r awdurdod arweiniol i'r

³Mae'r ymrwymiad hwn yn cyfeirio at y cytundeb cenedlaethol rhwng CLILC, 22 o arweinwyr yr awdurdodau lleol a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

consortiwm, ac eithrio'r elfennau hynny sy'n cael eu dirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. Bydd yr elfennau a gedwir yn ganolog o'r prif grantiau a gyhoeddir yn rhanbarthol yn cael eu trosglwyddo'n llawn ac yn cael eu cadw gan y consortia.

Rhaid dirprwyo i'r ysgolion yr holl arian y bwriedir ei ddirprwyo i ysgolion. Os bydd angen canllawiau a chymorth ychwanegol ar ysgolion ar sut i wario'r arian yn effeithlon, cânt eu darparu gan y consortia.

Cyllid a gynhyrchir gan y consortia yn sgil codi tâl am rai o'r rhaglenni a'r ymyriadau a gomisiynir ganddynt.

Disgwylir i'r consortia fod yn agored ac yn eglur wrth ddefnyddio pob elfen o'r cyllid, gan ddefnyddio'r cynlluniau busnes fel cyfrwng i gytuno ar ddadansoddiad llawn o'r gyllideb ac ar adroddiad blynyddol y rheolwr gyfarwyddwr i adrodd yn glir ac yn dryloyw ar sut y cafodd y cyllid ei wario.

Amserlenni

Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol wedi'i weithredu'n raddol ers mis Ebrill 2014. Nid yw'r holl wasanaethau sy'n rhan o'r model hwn wedi'u gweithredu gan y consortia ers y dyddiad hwnnw, fodd bynnag.

O ganlyniad, fel rhan o'r broses cynllunio busnes ac i ddarparu elfen o hyblygrwydd, bydd angen i'r consortia ddangos yn glir yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu'n uniongyrchol gan y consortia, a hefyd esbonio pam nad ydynt yn barnu bod y gwasanaethau a amlinellir yn y model yn rhai priodol i'w cyflenwi'n rhanbarthol.

Atodiad: Model llywodraethu'r consortia rhanbarthol

